
ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales
Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru Welsh Government

20 Mai 2020
SFR 46/2020

# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru: 2020

Diweddarwyd yr adroddiadau hyn i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Rhannwyd rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn rhanbarthau ar wahân ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru i ddarparu dadansoddiad manylach ar y materion a'r tueddiadau allweddol yn y meysydd hyn. Mae rhanbarth y De-orllewin yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o'r rhanbarth a thynnu sylw at wahaniaethau a allai fodoli ar draws y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




**Pwyntiau allweddol**

- De-orllewin Cymru yw'r ail boblogaeth fwyaf trwchus o'r pedwar rhanbarth.
- Roedd y boblogaeth yn Ne Orllewin Cymru yn amrywio o 125,000 o drigolion yn Sir Benfro i 246,500 yn Abertawe.
- Roedd gan Dde-orllewin Cymru fwy o gapasiti ynni carbon isel (MW) yn 2018 na'r rhanbarthau eraill yng Nghymru. Roedd 37 y cant o brosiectau gwynt ar y tir ledled Cymru a 33 y cant o nwy carthion ledled Cymru wedi'u lleoli yn y rhanbarth.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bum allbwn ystadegol sy'n rhoi ystadegau ar gyfer Cymru a phob un o'r pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru), ar gyfer naw thema allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


Poblogaeth 2
Iechyd 9
Cyflogaeth 11
Trafnidiaeth 16
Yr Amgylchedd 19
Ffyniant 23
Seilwaith Digidol 26
Tai 30
Diwylliant a threftadaeth 32
Gwybodaeth am Ansawdd 33

Ystadegydd: Geraint Turner ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 2018





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Roedd gan y De-orllewin boblogaeth o tua 702,000 o bobl yn 2018.

Yr awdurdod mwyaf yn y rhanbarth hwn, o ran trigolion, oedd Abertawe, gyda phoblogaeth bras o ryw 246,500 yn 2018. Y lleiaf, ar y llaw arall, oedd Sir Benfro gyda phoblogaeth o ryw 125,000.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilometr sgwâr) yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 2018**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan y De-orllewin ddwysedd poblogaeth o 145.9 o bobl fesul cilometr sgwâr yn 2018, sef yr ail uchaf o blith y pedwar rhanbarth yng Nghymru.

Abertawe oedd yr awdurdod dwysaf ei boblogaeth, sef 649.2 o bobl fesul cilometr sgwâr. Er ei fod yn cynnwys yr ail ddinas fwyaf yng Nghymru, hwn yw'r pumed awdurdod dwysaf ei boblogaeth yn y wlad ar ôl Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili. Hefyd, mae 2 o'r 5 awdurdod mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru yn y rhanbarth. Yr awdurdod mwyaf prin ei boblogaeth yn y rhanbarth oedd Sir Benfro, gyda dwysedd poblogaeth o 77.3 o bobl fesul cilometr sgwâr. Rhwng 2008 a 2018, tyfodd dwysedd y boblogaeth cymaint ag 3.7 y cant yn y De-orllewin. Yr awdurdod gyda'r twf dwysedd poblogaeth mwyaf yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn oedd Abertawe, sef 5.3 y cant. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r gyfradd isaf yn y rhanbarth, gyda'r dwysedd poblogaeth yn tyfu 2.5 y cant rhwng 2008 a 2018.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod 45 y cant o breswylwyr y De-orllewin yn byw mewn aneddiadau gyda 25,000 neu fwy o breswylwyr. Dyma'r ail uchaf o'r pedwar rhanbarth. Mae gan y rhanbarth hefyd 16 y cant o breswylwyr mewn ardaloedd a ddosberthir fel rhai "prin eu poblogaeth", sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, ond yn is na'r Gogledd a'r Canolbarth.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yn y De-orllewin yn ôl oedran a rhyw, 2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r De-orllewin yn dangos arwyddion clir o boblogaeth sy'n heneiddio yn y rhanbarth. Rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd wedi cynyddu o 18.7 y cant i 21.9 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 19.7 y cant i 17.3 y cant.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 1998-2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tyfodd poblogaeth Abertawe 5.3 y cant rhwng 2008 a 2018, sy’n fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn. Castell-nedd Port Talbot oedd â’r twf isaf, sef 2.5 y cant. Sir Benfro oedd â’r newid mwyaf yn y twf poblogaeth rhwng 1998-2018 a 2008-2018, gan fynd o gyfradd twf o 8.3 y cant i 3.2 y cant.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 5: Elfennau o newid yn y boblogaeth yn y De-orllewin, dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar y data sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth ar draws y De-orllewin, gwelwn, ers y cyfnod 2001-02, fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i fudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers 1998-99, mae mudo net a newidiadau eraill wedi bod bron yn gwbl gadarnhaol, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi bod yn symud i mewn i'r ardal nag sydd wedi bod yn symud allan, ac mae newid naturiol wedi bod yn negyddol yn y rhanbarth, sy'n golygu bod y gyfradd genedigaethau wedi bod yn is na'r gyfradd marwolaethau.

Gan edrych ar awdurdodau lleol, yn Sir Gaerfyrddin y cafwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd mudo a newidiadau eraill yn ystod y cyfnod 2017-18. Gwelwn hefyd fod y newid yn y boblogaeth oherwydd mudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod hwn. Gwelwyd newid naturiol negyddol yn y pedwar awdurdod lleol yn ystod y cyfnod hwn, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau. Roedd y newid naturiol negyddol uchaf yn Sir Gaerfyrddin.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 6: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad, dywedodd 147,864 o bobl tair oed a throsodd yn y rhanbarth eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Er efallai bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn debyg mewn gwahanol ardaloedd, mae hefyd yn bwysig ystyried canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal gan y gall hyn amrywio'n sylweddol yn sgil gwahaniaethau ym maint y boblogaeth. Abertawe, er enghraifft, oedd â'r niferoedd siaradwyr Cymraeg ail uchaf yn y rhanbarth, ond y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth (11.4 y cant).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd, fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon aelwydydd yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd sy'n trafod data ar y Gymraeg.

Yn y cyfamser, dengys data o'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth, fod tua 31.8 y cant o drigolion y rhanbarth sydd dros dair oed wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 5.4 y cant o gymharu â data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2009, sef y cynnydd canrannol mwyaf o blith rhanbarthau Cymru dros y cyfnod hwn. Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y rhanbarth ym mis Medi 2019, gyda chyfradd o tua 52.3 y cant o bobl dros dair oed yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod gyda'r gyfradd isaf yn yr un cyfnod, sef 22.6 y cant. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 7: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn y De-orllewin, 2018-19**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2018-19, roedd 31,885 wedi cofrestru ar gyrsiau Addysg Uwch yn y De-orllewin, sy'n cynrychioli 24.1 y cant o gofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru. Prifysgol Abertawe oedd â'r nifer uchaf o gofrestriadau addysg uwch yn y rhanbarth, sy'n cynrychioli 64.7 y cant o'r holl gofrestriadau yn y rhanbarth.


Yn ogystal â'r ffigurau hyn, mae 165 wedi cofrestru ar grŵp NPTC, ond gan fod y darparwr ar wasgar dros sawl campws coleg, nid yw'n bosibl rhannu'r rhain rhwng y De-orllewin a'r Canolbarth.

## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol dda iawn neu dda.

Mae data ONS yn dangos ar gyfer 2016-18 yn y De-orllewin, bod disgwyliad oes a disgwyliad oes iechyd ar gyfer dynion a menywod ar eu huchaf yn Sir Benfro ac ar eu hisaf yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Ffigur 8: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad ffordd iach o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**





* Cyfunwyd cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae’r 5 ymddygiad ffordd iach o fyw yn cynnwys: peidio ag ysmygu, yfed 14 o unedau neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau yn ystod y diwrnod blaenorol, sicrhau mynegai màs y corff iach a bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol.

Ar draws y De-orllewin yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, rhoddodd 10 y cant o oedolion wybod eu bod yn gwneud llai na 2 o'r 5 ymddygiad ffordd iach o fyw. Roedd hyn yn amrywio o 9 y cant yn Sir Benfro ac 14 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond nid oedd y gwahaniaeth yn sylweddol yn ystadegol.

**Ffigur 9: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol dda neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn y De-orllewin yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, rhoddodd 69 y cant o oedolion wybod eu bod mewn iechyd cyffredinol dda neu dda iawn. Roedd hyn yn amrywio o 68 y cant yn Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot a 72 y cant yn Sir Benfro, ond nid oedd y gwahaniaeth yn sylweddol yn ystadegol.


## Cyflogaeth



| Cyfradd cyflogaeth (poblogaeth 16-64 oed) | Cyfradd diweithdra (poblogaeth 16 oed a hŷn) | Cyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) (poblogaeth 16-64 oed) |
|---|---|---|
| 71.9% | 4.4% | 21.1% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Data yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019

**Ffigur 10: Y gyfradd cyflogaeth yn y De-orllewin, 1999-2019**




Nodiadau:

Mae data ar gyfer 1999-2003 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data ar gyfer 2004 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2004. Mae data o 2005 ymlaen ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi. Ni ystyriwyd bod data 1999 na 2000 ar gyfer y lefel ddaearyddol hon yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O blith y pedwar rhanbarth, y De-orllewin oedd â'r gyfradd cyflogaeth isaf yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019.


Ers 2001, mae cyfradd cyflogaeth y rhanbarth wedi cynyddu 7.2 pwynt canran. Gwelodd pob awdurdod lleol yn y De-orllewin gynnydd yn y gyfradd cyflogaeth ers 2001. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r cynnydd mwyaf o holl awdurdodau lleol Cymru, i fyny 14.1 pwynt canran. Roedd y cynnydd lleiaf yn y De-orllewin yn Abertawe, i fyny 1.9 pwynt canran.

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddi-waith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, y gyfradd diweithdra yn y De-orllewin oedd 4.4 y cant, sef gostyngiad o 1.9 pwynt canran o gymharu â 2001. Gwelodd Sir Gaerfyrddin y lleihad mwyaf yn y De-orllewin, gan leihau 2.6 pwynt canran ers 2001. Sir Benfro oedd â'r gyfradd diweithdra uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, sef 6.4 y cant.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, y gyfradd anweithgarwch economaidd yn y De-orllewin oedd 21.1 y cant, sef gostyngiad o 7.5 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid yn uwch na'r newid yng Nghymru gyfan. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r ail leihad mwyaf yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn, i lawr 13.6 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym mhroffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 11: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2018**





Ffynhonnell: Cyflogaeth yn y Gweithle, Llywodraeth Cymru

Cesglir data cyflogaeth yn y gweithle gan fusnesau drwy Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), ac mae'n canolbwyntio ar ddata cyflogaeth a chyflogeion. Mae hyn yn cyferbynnu â data'r Arolwg o'r Gweithlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddaw o ddata a gesglir yn bennaf gan breswylwyr cartrefi preifat.

Dengys data cyflogaeth yn y gweithle, yn 2018, fod tua 311,400 o bobl yn gweithio yn y De-orllewin, gyda mwy na 40 y cant ohonynt wedi'u lleoli yn Abertawe. Roedd y lefel cyflogaeth cyfartalog yn y pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth yn tua 77,900 o bobl, ac er mai dyma'r uchaf yn y pedwar rhanbarth, mae sgiw gadarnhaol oherwydd cyfradd uchel y cyflogaeth yn Abertawe.

Y sector eiddo tirol welodd y cynnydd canrannol mwyaf mewn swyddi yn ystod cyfnod 2008-2018, a gwelodd y sector amaeth, coedwigaeth a physgota'r lleihad canrannol mwyaf. Ond o ystyried lefelau swyddi, gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg a'r sector iechyd welodd y cynnydd mwyaf yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y lleihad mwyaf yn nifer y swyddi yn y sector cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd. Noder fod y gwahaniaethau yn seiliedig ar ddata wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

**Ffigur 12: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yn y De-orllewin o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -5,700, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r rhanbarth nag i mewn iddo. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2018 fod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr yn negyddol yn hanner awdurdodau lleol y rhanbarth sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Abertawe, yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth oedd â'r nifer uchaf o weithwyr yn dod o awdurdodau lleol eraill, a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer uchaf o weithwyr yn teithio allan o'r ardal.

**Ffigur 13: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data Cyfrifiad 2011, ar gyfartaledd, bod gan breswylwyr 16-74 oed ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, bellteroedd hirach i gymudo i'r gwaith na'r cyfartaledd yng Nghymru. Trigolion Sir Benfro oedd â'r teithiau cymudo hwyaf i'r gwaith o ran pellter.

Fel yng ngweddill y wlad, dengys data 2019 fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau lai na 10 cyflogai. Roedd y gyfran o fusnesau bach yn y De-orllewin yr ail isaf o blith y pedwar rhanbarth, ond y De-orllewin oedd â'r cyd-gyfran uchaf o fusnesau mawr.

Mae data ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Rhagfyr 2018 yn dangos yn 3 o'r 4 o awdurdodau lleol bod y gyfran o ddynion a menywod 18-64 oed heb gymwysterau yn uwch na ffigur Cymru o 8.4 y cant. Yn Sir Benfro ac Abertawe, roedd y canran o ddynion a menywod 18-64 oed a oedd yn gymwys i NQF lefel 2 neu uwch yn fwy na lefel Cymru o 78.9 y cant.

## Trafnidiaeth

### Ffigur 14: Seilwaith Trafnidiaeth yn y De-orllewin




Ffynhonnell: Arolwg Ordnans


Mae seilwaith trafnidiaeth y De-orllewin yn cynnwys pen draw traffordd yr M4, yn ogystal â 5 o'r 9 porthladd yng Nghymru – mwy nag unrhyw un o ranbarthau eraill Cymru. Mae hefyd 2 borthladd fferi (Abergwaun a Doc Penfro) yn y rhanbarth.

Aberdaugleddau yw'r porthladd mwyaf yng Nghymru a'r pumed mwyaf yn y DU o ran maint y nwyddau, yn bennaf olew a nwy. Ymdriniodd â 30.9 miliwn o dunelli o drafnidiaeth sef 6.4 y cant o gyfanswm y DU ar gyfer 2018. Roedd trafnidiaeth nwyddau Aberdaugleddau yn 63 y cant o holl drafnidiaeth porthladdoedd Cymru yn 2018.

Yr ail borthladd mwyaf yng Nghymru yw Port Talbot, sy'n mewnforio mwyn haearn a glo ar gyfer y gwaith dur cyfagos yn bennaf.

Mae ymchwil i gyflymder cyfartalog yr M4 yn dangos rhwng Ebrill a Mehefin 2016, mai'r M4 drwy Gastell-nedd Port Talbot oedd â'r cyflymderau arafaf ar gyfartaledd yn y rhanbarth yn ystod cyfnodau brig.

**Ffigur 15: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddir gan drigolion cyflogedig y De-orllewin rhwng 16 a 74 oed, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad o 2011, roedd 76.9 y cant o weithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yn y De-orllewin yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 228,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 11.2 y cant (33,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 4.8 y cant (14,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Yn 2018-19 ar draws y De-orllewin, oedolion 16 oed a throsodd yn Abertawe oedd y mwyaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio, gyda 68.5 y cant yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis. Sir Gaerfyrddin oedd yr awdurdod lleol lle roedd hyn leiaf tebygol yn y De-orllewin (53.3 y cant).

Yn ystod yr un cyfnod, yr awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf o oedolion 16 oed a throsodd sy'n defnyddio beic fel dull teithio o leiaf unwaith y mis yn y rhanbarth oedd Abertawe hefyd (11.6 y cant). Roedd y defnydd isaf rheolaidd o feic yng Nghastell-nedd Port Talbot (6.3 y cant).

**Ffigur 16: Teithiau trên a wnaed yn y De-orllewin dros amser, yn ôl awdurdod lleol**





Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Ledled y rhanbarth, gwnaed bron 2.3 miliwn o deithiau trên yn 2017-18, sef cynnydd o bron i 558,000 o gymharu â 2007-08. Hefyd, cynyddodd nifer y teithiau trên 36.5 y cant yn Abertawe yn ystod y cyfnod deng mlynedd hwn, gan roi cyfrif am 40.8 y cant o'r cynnydd rhanbarthol mewn teithiau trên. Roedd y naill ffigur a'r llall yn uwch nag yn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth.

Yn 2017-18, roedd 42 o orsafoedd rheilffordd yn y De-orllewin. Roedd dau o'r rhain, Abertawe a Chastell-nedd ymysg y 20 prysuraf yng Nghymru yn ôl niferoedd cyrraedd a gadael.

## Yr Amgylchedd


### Ffigur 17: Yr Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn y De-orllewin




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn y De-orllewin, mae Bro Gŵyr, De Sir Benfro, Marloes a Dale, Bae Sain Ffraid, Penrhyn Dewi, Dinas Head, Llandudoch a Threwyddel wedi'u dynodi'n Arfordir Treftadaeth er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif. Yn y rhanbarth hwn hefyd ceir Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Ynys Dewi ac Arfordir Penrhyn Dewi; Arfordir Castellmartin; Skomer, Skokholm a 'r Moroedd oddi ar Sir Benfro; Grassholm; Bae Caerfyrddin; Cilfach Tywyn ac Elenydd-Mallaen. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

### Ffigur 18: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y De-orllewin




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae rhanbarth y De-orllewin yn gartref i Barciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog, yn ogystal â Bro Gŵyr, sydd wed'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE).


## Ansawdd Aer

Castell-nedd Port Talbot oedd â’r crynodiad uchaf o nitrogen deuocsid yn yr aer yn 2017 yn (10 µg/m$^3$) ac roedd y crynodiad isaf yn 5 µg/m3 yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth ers 2007.

## Ynni

Yn y De-orllewin yn 2018, roedd capasiti o 976 megawat (MW) o ynni carbon isel, sef 25 y cant o gyfanswm Cymru, mwy nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru. Abertawe oedd yr awdurdod lleol gyda’r capasiti lleiaf o ynni carbon isel yn y rhanbarth (64 MW). Roedd gan bob awdurdod lleol arall yn y rhanbarth gapasiti ynni carbon isel o rhwng 250MW a 351MW. Roedd cyfanswm o tua 15,500 o brosiectau ynni carbon isel ledled y rhanbarth yn 2018. Er bod cyfran fawr ohonynt (85 y cant) ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol), roedd 37 y cant o’r prosiectau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru a 33 y cant o brosiectau nwyon carthffosiaeth Cymru wedi'u lleoli yn y rhanbarth.

**Ffigur 19: Trin gwastraff trefol yn y De-orllewin**





Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2018-19, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 61 y cant yn y De-orllewin, o gymharu â 50 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.

Roedd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio a gofnodwyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, o 59 y cant yn Sir Gaerfyrddin, i 63 y cant yn Abertawe.

Swm y gwastraff trefol awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2018-19 oedd 22 y cant, o gymharu â 40 y cant yn 2012-13.

**Ffigur 20: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd y gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd yn y De-orllewin yn 2018-19 yn amrywio o 130kg yn Abertawe i 237kg yn Sir Benfro. Abertawe oedd â'r newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi y pen ers 2012-13, gan roi gwybod am leihad o 36 y cant, neu 74kg y pen. Yn y cyfamser, roedd preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin wedi cynhyrchu cyfartaledd o 27kg yn fwy o wastraff gweddilliol yn 2018-19 nag yn 2012-13.

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r ddemograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallent arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.


Yn y De-orllewin, GYG y pen oedd £19,382 yn 2018 (y data yw'r dull cytbwys ar gyfer GYG). Abertawe oedd yr unig awdurdod yn y rhanbarth a oedd â lefelau GYG y pen uwch na gwerth Cymru, ac roedd gan bob awdurdod lleol yn y rhanbarth lefelau GYG y pen a oedd yn is na gwerthoedd GYG y pen y DU. Abertawe oedd â'r GYG uchaf y pen yn y rhanbarth (£21,910) a Sir Gaerfyrddin oedd â'r isaf (£16,751). Ledled y rhanbarth, tyfodd GYG y pen 3.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac 83.3 y cant ers 1999. Abertawe oedd â'r cynnydd canrannol mwyaf mewn GYG yn y De-orllewin ers 1999 (91.2 y cant) a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r cynnydd mwyaf yng Nghymru gyfan o'i gymharu â 2017, i fyny 8.8 y cant.

Yn y De-orllewin, Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen oedd £15,224 yn 2017, sef yr isaf o blith y pedwar rhanbarth yng Nghymru. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GDHI y pen 1.1 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 57.2 y cant ers 1999.

Yn y De-orllewin, enillion wythnosol gros canolrifol gweithwyr amser llawn yn 2019 oedd £532.20, gydag enillion canolrifol yr awdurdodau lleol yn amrywio o £485.00 yn Sir Benfro i £613.40 yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn 2019, tyfodd yr enillion canolrifol ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth. Roedd y cynnydd mwyaf mewn enillion canolrifol yn Sir Benfro rhwng 2018 a 2019, i fyny 6.1 y cant (£27.80).

Mae data'r SYG yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (sef £9.00 yn 2019, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yn 2019, mae canlyniadau'n dangos bod 8.4 pwynt canran o wahaniaeth ar draws y rhanbarth rhwng yr awdurdodau lleol. Castell-nedd Port Talbot oedd yr isaf gyda chanran o 20.9 y cant, a Sir Benfro oedd yr uchaf gyda 29.3 y cant. Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

**Ffigur 21: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y De-orllewin, yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yn y De-orllewin, roedd 19.6 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2018/19, sy'n gynnydd o 1.7 pwynt canran dros y deng mlynedd blaenorol. Roedd y gyfradd uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot (23.8 y cant), a'r isaf yn Sir Benfro (16.0 y cant). Gwelodd Castell-nedd Port Talbot gynnydd o 2.2 pwynt canran mewn cymhwysedd o'i gymharu â 2008/09, sy'n fwy nag unrhyw le arall yn y rhanbarth.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bychain hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y De-orllewin yn cynnwys 422 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 22 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2019 - sef y deg y cant mwyaf difreintiedig, mae 40 ohonynt yn y De-orllewin. Mae hyn yn cyfateb i 9 y cant o'r holl Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, a 21 y cant o'r deg y cant mwyaf difreintiedig ledled Cymru.


Diweddarwyd y Mynegai o Amddifadedd Lluosog Cymru ddiwethaf ym mis Tachwedd 2019, ac mae'r pecyn rhyngweithiol yn darparu dadansoddiad ystadegol pellach yn ôl Dinas-ranbarth Cymru / Ardal Bargen Dwf.

## Busnesau

Yn y De-orllewin, roedd 93.3 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2013 yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 41.0 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

## Seilwaith Digidol

### Ffigur 22: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-orllewin allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Yn y De-orllewin ym mis Medi 2019, roedd cysylltiad band eang sefydlog cyflym iawn (30Mbit/s neu'n uwch) neu gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300 Mbit/s neu'n uwch) ar gael i 92 y cant o'r boblogaeth, gan amrywio o 86 y cant o'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin i 97 y cant yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Ym mis Medi 2019, roedd cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300Mbit/s neu'n uwch) ar gael i 38 y cant o'r cartrefi a'r busnesau. Roedd hyn 14 pwynt canran yn is na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 52 y cant ym mis Medi 2019. Roedd mynediad yn amrywio o 5 y cant yn Sir Benfro i 64 y cant yn Abertawe.

Roedd gwasanaethau ffeibr llawn ar gael i 9 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth ym mis Medi 2019. Roedd y ffigur hwn yn is na chyfartaleddau'r DU a Chymru. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.


**Ffigur 23: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-orllewin nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd tua 3,900 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 1.1 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2019, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/s na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/s. Roedd y gyfran hon uwchlaw cyfartaledd y DU (0.5 y cant) ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Chymru (1.0 y cant).

**Ffigur 24: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-orllewin a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-orllewin a oedd â signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 59 y cant yn Sir Gaerfyrddin i 81 y cant yn Abertawe. Cyfartaledd y DU oedd 80 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 72 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 8 y cant o arwynebedd Sir Gaerfyrddin yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth. Ond yn Abertawe a Sir Benfro, roedd yr arwynebedd nad oedd yn cael ei wasanaethu yn 2 y cant.

**Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yn y De-orllewin gyda signal galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yn y De-orllewin, roedd canran y cartrefi a'r busnesau a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019 yn amrywio o 80 y cant yn Sir Gaerfyrddin i 95 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn 3 o'r 4 awdurdod lleol yn y rhanbarth (Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot), canran yr ardal ddaearyddol yn y De-orllewin lle nad oedd signal gan unrhyw weithredwr oedd 1 y cant neu is, ond yn Sir Gaerfyrddin roedd yn 3 y cant.

## Tai


**Ffigur 26: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn y De-orllewin dros amser (pob deiliadaeth)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Anheddau, Llywodraeth Cymru


Mae cyfanswm yr anheddau yn y De-orllewin yn parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 328,400 o anheddau ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 5 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf. Abertawe oedd yr awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o anheddau (111,900), a Sir Benfro oedd â'r nifer leiaf (62,700). Roedd 14 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat, sydd 1 y cant yn uwch o gymharu â 5 mlynedd yn ôl. Roedd 70 y cant yn gartref i'w perchnogion, sef 1 pwynt canran yn is o gymharu â 5 mlynedd ynghynt.

**Ffigur 27: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yn y De-orllewin dros amser**




Ffynhonnell: Data adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 28: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yn y De-orllewin dros amser, yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Casglu data adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

Daw'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu ganfod a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwr preifat, a all arwain at dangyfrif nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif nifer y tai ar gyfer y sector preifat.


Cwblhawyd 1,173 o anheddau newydd ledled y De-orllewin yn ystod cyfnod 2018-19. Mae hyn yn 30 y cant yn llai na deng mlynedd ynghynt a 34 y cant yn llai nag ugain mlynedd ynghynt. Y nifer mwyaf o anheddau newydd a gwblhawyd yn ystod cyfnod 2018-2019 oedd yn Abertawe (349, neu 30 y cant) a’r isaf oedd yng Nghastell-nedd Port Talbot (200, neu 17 y cant).

Dengys data o Fynegai Prisiau Tai'r DU, yn y De-orllewin ym mis Medi 2019, fod prisiau tai cyfartalog yn amrywio o £122,400 yng Nghastell-nedd Port Talbot i £182,400 yn Sir Benfro. Rhwng mis Medi 2009 a mis Medi 2019, Sir Benfro oedd yr awdurdod lleol a welodd y cynnydd mwyaf mewn prisiau tai, a gododd £31,500 (neu 20.9 y cant) tra mai Abertawe a gofnododd y cynnydd lleiaf, sef £19,000 (neu 14.4 y cant). Roedd y data yn gywir adeg cyhoeddi Mynegai Prisiau Tai'r DU ym mis Ionawr 2020. Mae Mynegai Prisiau Tai'r DU yn fynegai wedi'i addasu yn ôl y cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli er mwyn adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir Mynegai Prisiau Tai'r DU bob mis. Mae'r holl ffigurau ym Mynegai Prisiau Tai'r DU yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod 66 o bobl wedi cysgu allan yn y De-orllewin yn y pythefnos rhwng 14 a 27 Hydref 2019. Mae hyn yn gynnydd o 32 y cant (16 o bobl) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018, er ei bod yn bosibl bod sawl ffactor wedi dylanwadu ar y cynnydd, gan gynnwys gwell systemau ar gyfer nodi pobl sy'n cysgu allan mewn rhai awdurdodau lleol. Roedd dros hanner y bobl (56 y cant) a oedd yn cysgu allan yn y rhanbarth wedi’u lleoli yn Abertawe.

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 29: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yn y Canolbarth a'r De-orllewin




Ffynhonnell: Cadw

Cafodd De-orllewin Cymru 24 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid yn 2018, a arweinodd at gyfanswm gwariant o £884 miliwn. Roedd ymweliadau dydd gan dwristiaid yn y rhanbarth yn fwyaf tebygol o fod â phentrefi neu gefn gwlad.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru fod gan De-orllewin Cymru gyfradd o 65 y cant ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai, cynydd o 2 y cant ers 2017.

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau at atyniadau twristiaeth yng Nghymru yn 2018, roedd 2 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yn Ne-orllewin Cymru, sef: Parc Dŵr a Chanolfan Hamdden LC a Folly Farm. Y rhain oedd y ddau atyniad mwyaf poblogaidd yn y wlad hefyd. Dros yr un cyfnod, roedd 1 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yng Nghymru yn 2018 yn Ne-orllewin Cymru, sef: Parc Gwledig Pen-bre.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. ar lefel Cymru, ar lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn dolenni at ddatganiadau unigol.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi yn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd y cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a chan ycyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru.

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau. Nid yw amcangyfrifon o’r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

Ni fwriadwn ddiweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae'n bosibl fod data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru, sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 7 ohonynt, sef canran yr oedolion sydd â llai na dau ddangosydd ffordd iach o fyw; lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer; canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol; Incwm

Gwario Gros Aelwydydd y pen; capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy a osodwyd; canran y bobl mewn gwaith; a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Y diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at Desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.